



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 18 Rhagfyr 2018 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr. M. Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
James, Pennaeth Adfywio a Ffyniant
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant
Mr D Batten, Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad
Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Ms Z Lancelott, Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad
Ms A Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Garrif

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd M Weaver
Y Cyngorydd E Webster

92 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud, sy'n ymwneud ag eitem 12 ar yr agenda:

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater ac arhosodd e yn y cyfarfod pan oedd y mater

yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais: "Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel Uwch Swyddog o fewn yr Awdurdod, er nad yw'r adroddiad yn cyfeirio at y swydd".

Gwnaeth y swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant personol ariannol ynglŷn â'r mater yma, a gadawon nhw pan oedd y mater yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais:

- Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
- Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
- Mr G. Davies - Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
- Mr P. Mee - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned
- Mr D. James - Pennaeth Materion Adfywio a Ffyniant
- Mr D. Batten - Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad
- Mr M. Phillips - Pennaeth Gwasanaeth - Refeniw a Budd-daliadau
- Ms L. Davies - Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd

Gwnaeth y swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant personol ariannol ynglŷn â'r mater yma, ond arhoson nhw yn y cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei drafod er mwyn rhoi cyngor i'r Cabinet:

- Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr
- Mr R. Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

93 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2018, fel rhai cywir.

94 YMGYNGHORIAD AR BLEIDLEISIO YN 16 OED

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Llesiant a Chydnerth y Gymuned a Mr D. Lewis-Rowlands (Aelod Rhondda Cynon Taf o Senedd Ieuencid y DU) drosolwg i'r Aelodau o ganlyniad yr ymgynghoriad Pleidleisio yn 16 Oed. Roedd hyn yn ymateb i'r ymgyrch 'Make Your Mark' genedlaethol gan Senedd Ieuencid y DU.

Cafodd yr Aelodau wybod fod ymgynghoriad dros 8 wythnos wedi'i gynnal â thrigolion y Fwrdeistref Sirol, a chymerodd 452 o bobl ifainc, a 161 o oedolion, ran ynddo. Dywedodd Aelod Rhondda Cynon Taf o Senedd Ieuencid y DU fod 349 o bobl ifainc o blaid pleidleisio yn 16 oed. Yn ogystal â hynny, nododd yr ymgynghoriad fod nifer o'r pryderon a gododd trigolion Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'r ymgyrch Pleidleisio yn 16 Oed yn ymwneud â'u barn fod diffyg addysg a gwybodaeth ar gael i bawb, nid yn unig pobl ifainc. Mae'n bosibl y gallai ymrwymiad i wella addysg a sicrhau bod modd cael gafael ar wybodaeth yn haws gael effaith arbennig o gadarnhaol ar y broses o ymgysylltu â phleidleiswyr. Mae hyn yn cynnwys y 5,253 o bleidleiswyr ychwanegol posibl

yma yn Rhondda Cynon Taf.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc yr adborth, ac achubodd ar y cyfle i ddiolch i Mr Lewis-Rowlands am ei gyfraniadau at sir Rhondda Cynon Taf drwy'r Fforymau Ieuenctid. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am fwrw ymlaen â darn o waith sy'n ymwneud â gwella addysg, ymwybyddiaeth a gwybodaeth am hawliau pleidleisio a democratiaeth i drigolion ledled y Fwrdeistref Sirol.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater hefyd.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cefnogi Fforwm Ieuenctid Sirol Rhondda Cynon Taf gyda gweithgareddau'r ymgyrch Pleidleisio yn 16 Oed drwy hyrwyddo'r gweithgareddau ar gyfryngau cyfathrebu ffurfiol y Cyngor, gan gynnwys gwefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.
2. Helpu Fforwm Ieuenctid Sirol Rhondda Cynon Taf i wneud rhagor o waith ymchwil i'r math o wybodaeth yr hoffai'r cyhoedd ei weld er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion pleidleisio, a hynny mewn ymateb i ganlyniad yr ymgynghoriad.
3. Ymrwymo i wella'r wybodaeth a'r ohebiaeth sydd ar gael i drigolion o bob oed mewn perthynas â gwleidyddiaeth, llywodraeth leol a phleidleisio yn Rhondda Cynon Taf cyn yr etholiad nesaf.

95 STRATEGAETH DDIGARTREFEDD 2018-2022

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd wrth yr aelodau am y ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor o dan Ddeddf Tai (Cymru) i gynnal arolwg digartrefedd ar gyfer yr ardal. Rhoddodd wybod hefyd am y Strategaeth Ddigartrefedd a gafodd ei llunio yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg yma. Cafodd yr aelodau wybod fod dyletswydd bellach ar y Cyngor i lunio a mabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd a fyddai'n atal digartrefedd ac yn sicrhau bod llety addas a chymorth digonol ar gael i'r rheiny sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cafodd yr aelodau a'u cyfeirio at y Strategaeth yn yr adroddiad, a chafodd manylion yr ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid perthnasol eu nodi.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol sylwadau am y strategaeth a'r pwysau a'r galw y mae gwasanaethau yn eu hwynebu, gan nodi pa mor bwysig yw sicrhau bod strategaeth sy'n 'addas at y diben' yn cael ei rhoi ar waith. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y camau ataliol a'r angen i roi cymorth i'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y gwasanaeth a'r gwaith caled a gwerthfawr sy'n cael ei gyflawni y tu ôl i'r llen.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r adborth mewn perthynas â'r Strategaeth Ddigartrefedd 2018-2022 (Drafft) a ddaeth o gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Materion Iechyd a Lles a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018 a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 6.4 o'r adroddiad.
2. Cymeradwyo Strategaeth Ddigartrefedd 2018-2022 Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1 o'r adroddiad).

96 LLWYBRAU'R FRO DAU: CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY RHONDDA CYNON TAF 2019-2029

Rhoddodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad drosolwg i'r aelodau o'i adroddiad ynglŷn â'r arolwg diweddaraf a gafodd ei gynnal o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor.

Cafodd yr Aelodau wybod am themâu allweddol y camau a gafodd eu cymryd o fewn y cynllun yn ogystal â'r ymgynghoriad a gafodd ei gynnal gyda'r cyhoedd, ymgynghorai a'r Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant er mwyn penderfynu ar gynnwys y cynllun.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth y cynllun diwygiedig a'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, a oedd yn tynnu sylw at ba mor bwysig a gwerthfawr yw'r awyr agored i drigolion y Fwrdeistref Sirol. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y gwaith cadarnhaol a gafodd ei gyflawni, gyda gwirfoddoli, twristiaeth a phoblogrwydd teithiau cerdded byr oll yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

PENDERFYNODD yr Aelodau:

1. Gytuno y dylai'r Cyngor fabwysiadu 'Llwybrau'r Fro Dau: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf 2019-2029'.

97 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER CYFLWYNO CAEAU ARTIFFISIAL A CHAEU 3G ARTIFFISIAL

Rhoddodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad drosolwg i'r aelodau o'i adroddiad, sy'n cynnig llunio cynnig ar gyfer holl ardal y Cyngor i ddarparu mynediad lawn i'r cyhoedd i gaeau artiffisial a chaeau 3G, gyda pholisi prisio gyffredin.

Nododd fod gwaith ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Hamdden a Pharciau a rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wedi galluogi'r Cyngor i greu caeau 3G dros y tair blynedd ddiwethaf, gan ymrwymo i'w uchelgais i sicrhau bod pob trigolyn yn byw o fewn 3 milltir i gae 3G. Aeth y Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad ymlaen i roi gwybod i'r aelodau am y cynnig i lunio cynllun mynediad cyhoeddus ar gyfer caeau artiffisial a chaeau 3G ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod modd i ysgolion ddefnyddio'r cyfleusterau

ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd (8am - 5pm), gyda mynediad llawn i'r cyhoedd o 5pm yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos (9am - 5pm ar y ddau ddiwrnod).

Aeth y Swyddog ymlaen i drafod y polisi prisio fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, gan nodi'r rhesymeg dros y polisi prisio wrth edrych i'r dyfodol. Er mwyn lleddfu unrhyw bryderon posibl gan ddefnyddwyr, cynigiodd y Pennaeth Gwasanaeth gyflwyno'r prisiau o fis Ebrill 2019, a'u rhewi hyd at Ebrill 2021.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth at ba mor bwysig yw lechyd a Lles ein trigolion i'r Cyngor, gan gyfeirio at y cynigion i wella mynediad i'r holl drigolion yn yr adroddiad. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y cyfleusterau sydd ar gael a'r posibilrwydd i drigolion barhau gyda'u gweithgareddau chwaraeon ar y caeau 3G ni waeth beth fo'r tywydd. Ychwanegodd hi y byddai mynediad llawn i'r cyhoedd, ar y cyd â gweithdrefnau gweinyddu mwy syml, yn sicrhau bod modd i'r rheiny sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, yn gweithio yno neu'n ymweld â'r sir, fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Phobl Ifainc y cynigion, er iddi hi wneud sylwadau am y pryderon mae rhai ysgolion wedi'u codi ynglŷn ag incwm a'r baich gweinyddol posibl. Eglurodd yr Aelod o'r cabinet y byddai'r Cyngor yn gyfrifol am y gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â'r caeau, ac y byddai unrhyw effeithiau ariannol yn cael eu lleihau.

Yn ogystal â hynny, gwnaeth yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd sylwadau cadarnhaol am y cynigion a phwysigrwydd sicrhau bod y darpariaethau'n hygyrch ar gyfer yr ysgolion a'r cymunedau yn eu cyfanrwydd. Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr arbedion effeithlonrwydd y byddai modd i'r Cyngor eu gwneud drwy weinyddu'r cynigion.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo'r cynllun mynediad llawn i'r cyhoedd ynghyd â'r polisi prisio ar gyfer y caeau artifisial a'r caeau 3G, yn unol â'r amlinelliad yn Adran 5 yr adroddiad.
2. Bydd y Gwasanaeth Hamdden a Pharciau, ar y cyd â'r rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, yn ymgysylltu'n barhaus ag Ysgolion Uwchradd wrth lunio a gweithredu'r cynllun mynediad llawn i'r cyhoedd a'r polisi prisio cyffredin.

98 RHAGLEN WAITH Y CABINET: 2018-19

Darparodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol raglen waith ddrafft ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19 i'r aelodau, a oedd yn rhestru'r materion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried. Nododd y Cyfarwyddwr fod defnyddio'r rhaglen yn helpu i gadw'r broses gwneud penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw o fewn y Cyngor, yn ogystal â rhoi rhagor o gyfleoedd o ran camau Cyn-graffu.

PENDERFYNODD aelodau i:

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19 (gan

addasu'n briodol ar ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

99 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAID

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf".

100 GWAITH ADFYWIO CANOL TREF ABERPENNAR: FFRAMWAITH ADFYWIO DRAFFT

Darparodd y Pennaeth Materion Adfywio, Tai ac Eiddo drosolwg i'r aelodau o'i adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Cyflwynodd yr adroddiad y fframwaith adfywio drafft i'r aelodau, sy'n cydlynu'r pecyn buddsoddiadau cyfredol a fyddai'n darparu gwelliannau i Ganol Tref Aberpennar

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Defnyddio Fframwaith Adfywio Canol Tref Aberpennar fel sail i gydlynu a darparu'r cynlluniau yn unol â'r amlinelliad yn y ddogfen.
2. Llunio cais cynllunio ar gyfer y cynigion i ailddatblygu safle Sgwâr y Rhos.
3. Cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn diogelu'r broses o greu, cadarnhau a gweithredu Gorchymyn Prynu Gorfodol os bydd y cyd-drafod i gaffael y tir sydd wedi'i nodi yn Atodiad A yn aflwyddiannus.

(Nodwch: Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman am yr eitem yma)

101 GWASANAETHAU MAETHU - CYDWEITHREDU RHANBARTHOL ER MWYN CREU DRWS FFRYNT AR GYFER RECRIWTIO RHIENI MAETH

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu Rhanbarthol - Gwasanaethau Maethu, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant, drosolwg o'r aelodau o'u hadroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Cyflwynodd yr adroddiad gynnig i'r Cabinet i greu drws ffrynt rhanbarthol yng Nghwm Taf ar gyfer Gwasanaethau Maethu.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r broses o lunio cynigion penodol i gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i greu drws ffrynt rhanbarthol ar gyfer ymholiadau recriwtio o ran maethu. Bydd hyn yn

cynnwys canolfan alwadau, swyddog recriwtio a swyddog marchnata.

2. Cael gwared ar yr holl drefniadau cyswllt cyfredol a gwneud Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am asesu rhieni maeth posibl unwaith eto.

102 DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Darparodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ddatganiad o sefyllfa mewn perthynas â dyledion nad oes modd eu casglu i'r aelodau, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn yr atodlen sydd wedi'i hatodi i'r Ddarpariaeth o Dyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

103 ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR

Rhoddodd y Prif Weithredwr fanylion am ei adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ac a oedd yn amlinellu'r diwygiadau arfaethedig i strwythur swyddi Uwch Reolwyr y Cyngor. Cafodd yr aelodau eu cynghori y byddai gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn rhoi gostyngiad amcangyfrifedig o £404,604 mewn costau rheoli blynyddol ar lefel Uwch Reolwyr a Rheolwyr Cysylltiedig (sy'n cynnwys argostau).

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn Atodlenni 2(i), 2(ii), 2(iii) a 2(iv) o fis Ebrill 2019, yn amodol ar y broses angenrheidiol o ran ymgynghori â staff. Byddai gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn rhoi gostyngiad amcangyfrifedig o £404,604 mewn costau rheoli blynyddol ar lefel Uwch Reolwyr a Rheolwyr Cysylltiedig (sy'n cynnwys argostau);
2. Nodi, yn rhan o'r rhaglen arbedion ynni parhaus (ac yn amodol ar unrhyw ganiatâd gofynnol gan Bwyllgor Penodiadau'r Cyngor), y byddai'r diwygiadau yma yn arwain at ddileu'r swyddi canlynol o strwythur y Cyngor o fis Ebrill 2019:
 - i) Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol (Cyfarwyddwr Lefel 1);
 - ii) Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Ymgyfreitha, Y Gymuned a Phlant, Cynllunio a'r Amgylchedd (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - iii) Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Corfforaethol, Gwasanaethau Llywodraethol, Llywodraethu Gwybodaeth, Etholiadau a Chymorth i Fusnesau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - iv) Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael (Cyfarwyddwr Lefel 1);
 - v) Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Dylunio Corfforaethol a Chynnal a Chadw (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);

- vi) Pennaeth Caffael ac Ynni (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) x 0.6 Cyfwerth ag Amser Llawn;
- vii) Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen (Gradd Cyfarwyddwr Cyfadran);
- viii) Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Lefel 2);
- ix) Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio (Cyfarwyddwr Lefel 1); a
- x) Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cynllunio (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);

3. Nodi bod y Cabinet, yn sgîl y penderfyniad yn 1. uchod, wedi awdurdodi:

- i. Addasu swydd y Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Cynllunio a'r Amgylchedd (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- ii. Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- iii. Addasu swydd Pennaeth y Gyflogres a Phensiynau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- iv. Addasu swydd Pennaeth Cyflawni - Materion Archwilio a Chaffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Pennaeth Cyflawni - Materion Caffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- v. Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Priffyrdd a Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1);
- vi. Addasu swydd Pennaeth Gofal y Strydoedd (Pennaeth Gwasanaeth Level 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2)
- vii. Addasu swydd Pennaeth Prosiectau Buddsoddi Strategol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- viii. Addasu swydd Pennaeth Materion Adfywio a Ffyniant (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- ix. Addasu swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol (Cyfarwyddwr Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol (Cyfarwyddwr Lefel 1);
- x. Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Adnoddau a Chyflawniad (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2) i

swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1);

- xi. Addasu swydd Pennaeth TGCh (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh a Digidol (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- xii. Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant (Cyfarwyddwr Lefel 2);
- xiii. Addasu swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Oedolion (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion (Cyfarwyddwr Lefel 2);
- xiv. Addasu swydd Pennaeth Gwasanaeth - Materion Trawsnewid (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xv. Addasu swydd Pennaeth Asesu a Gwasanaethau Uniongyrchol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Gofal a Chymorth (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xvi. Addasu swydd Pennaeth Asesu a Chynllunio Gofal (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Gwasanaeth - Ymyrraeth Ddwys (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xvii. Addasu swydd Pennaeth Iechyd y Cyhoedd a Safonau Masnach (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- xviii. Addasu swydd Pennaeth Addysg yn y Gymuned (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau yn y Gymuned (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- xix. Addasu swydd Pennaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Materion Llesiant a Chydnherthedd y Gymuned (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xx. Creu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol (Cyfarwyddwr Lefel 2)
- xxi. Creu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cyfreithiol (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- xxii. Creu swydd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor (Cyfarwyddwr Lefel 2);
- xxiii. Creu swydd Pennaeth Dylunio Corfforaethol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
- xxiv. Creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Cynnal a Chadw Corfforaethol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
- xxv. Creu swydd Pennaeth Materion Eiddo (Pennaeth Gwasanaeth Lefel

2);

- xxvi. Creu swydd Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (Gradd Cyfarwyddwr Cyfadran); a
 - xxvii. Creu swydd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 2);
4. Argymhell i'r Cyngor bod Mr Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau'r Gymuned, yn cyflawni swydd Dirprwy Brif Weithredwr (gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i Mr Lee orffen yn y swydd honno);
 5. Argymhell i'r Cyngor y dylai swydd Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) gael ei chyflawni gan Gyfarwyddwr cyfredool y Gwasanaethau Ariannol, Mr Barrie Davies;
 6. Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gyfadran Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen cyfredol) i Gyfadran y Prif Weithredwr.
 7. Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gyfadran y Prif Weithredwr i'r Gyfadran Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen cyfredol);
 8. Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gwasanaethau Cyfreithiol (y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol cyfredol i'r Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu (y gwasanaeth Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus cyfredol);
 9. Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu (y gwasanaeth Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus cyfredol) i'r Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu a'r Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned;
 10. Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned i'r Gwasanaethau'r Prifffyrdd a Gofal y Strydoedd;
 11. Awdurdodi'r Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, i gychwyn y broses ymgynghori â staff yn unol â Pholisi Rheoli Newid cytunedig y Cyngor ac, yn amodol ar bwynt 12 isod (gweler 2.12 o'r adroddiad), i roi'r cynigion ar waith;
 12. Yn amodol ar gwblhau'r broses ymgynghori y soniwyd amdani ym mhwynt 11 uchod (gweler 2.11 o'r adroddiad), yna lle bo angen, cyfeirio'r mater o'r telerau a'r amodau a chydnyddiaeth o'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn strwythur arfaethedig diwygiedig y gyfarwyddiaeth, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2(i) i 2(iv) yr adroddiad at y Pwyllgor Penodi a/neu'r Cyngor llawn fel y bo'n briodol;
 13. Nodi y bydd gofyn am newidiadau ôl-ddilynol i Gyfansoddiad y Cyngor o ran

dileu a chreu swyddi Prif Swyddog.

Nodwch: Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman am yr eitem yma.

(Fel sydd wedi'i nodi yn y Cofnodion, darparodd nifer o Swyddogion Ddatganiadau o Fuddiannau mewn perthynas â'r eitem yma, a gadawon nhw'r cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais.)

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**